

Elin Jones AS, Llywydd

Dyddiad | Date: 14 Awst 2020

Pwnc | Subject: **Cais i'r Pwyllgor PPIA gwrdd yn ystod wythnos heb gyfarfodydd**

Annwyl Lywydd,

Yn sgil datblygiadau diweddar o ran dyfarnu canlyniadau arholiadau, hoffai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gwrdd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Awst i wneud gwaith craffu yng nghwmni CBAC, Cymwysterau Cymru a'r Gweinidog Addysg. Gan nad yw hon yn wythnos eistedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.46, rwy'n ysgrifennu yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd i ymgynghori â chi ar y cais hwn.

Er y bydd angen rhoi ystyriaeth fanylach i'r mater cymhleth hwn dros y tymor hwy, mae'r Aelodau'n awyddus i gynnal sesiwn graffu fer, benodol (cyn canlyniadau TGAU yr wythnos nesaf) er mwyn ceisio sicrwydd:

- bod materion allweddol mewn perthynas â'r holl ganlyniadau arholiadau a'r prosesau apelio cysylltiedig dan reolaeth;
- y darperir tegwch, eglurder a chywirdeb i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a staff addysg yng Nghymru.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod gan y Pwyllgor rôl bwysig wrth ddwyn Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus i gyfrif ar y penderfyniadau a wneir wrth ymateb i'r pandemig. O ystyried y pryderon a'r cymhlethdodau sylweddol o ran dyfarnu canlyniadau arholiadau eleni, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau cyn gynted â phosibl y bydd y Pwyllgor yn gallu cynnal cyfarfod cyhoeddus ffurfiol (yn rhithiol, o ystyried y sefyllfa iechyd cyhoeddus), er mwyn craffu ymhellach ar y materion hyn fel mater o flaenoriaeth. Yn amodol ar argaeledd tystion, ein nod yw cyfarfod ddydd Mawrth 18 Awst.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddPPIA@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddCYPE@senedd.wales

☎ 0300 200 6565